# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

Deddf gan Senedd Cymru i sefydlu fframwaith newydd ar gyfer cwricwlwm i ddisgyblion o'r oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion, i blant o'r oedran ysgol gorfodol y mae addysg fel arall wedi ei threfnu ar eu cyfer gan awdurdodau lleol, i ddisgyblion mewn ysgolion meithrin a gynhelir ac i blant penodol eraill y darperir addysg feithrin ar eu cyfer; i wneud darpariaeth ynghylch cynnydd ac asesu mewn cysylltiad â chwricwlwm i'r disgyblion hynny a'r plant hynny; i wneud darpariaeth ynghylch cwricwlwm i ddisgyblion sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion a gynhelir; ac at ddibenion cysylltiedig. [29 Ebrill 2021]

**Gan ei fod wedi ei basio gan Senedd Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Introductory Text yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 24 Ionawr 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.